

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Diwrnod Plant mewn angen – Mae croeso i ddisgyblion wisgo gwisg ffansi i'r ysgol ar ddydd Gwener, Tachwedd 19eg. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.00 y disgybl er mwyn cefnogi'r ymgyrch.

Ymgyrch Al Hughes, BBC Radio Cymru– Amdani Gyda'n Gilydd 2021

– mi fydd yr ysgol yn cefnogi'r her drwy gerdded milltir o gwmpas y cae ar ein Llwybr Lles newydd – Mae pump cylchdro o'r Llwybr Lles yn gyfateb i 1 milltir. Mae Pwyllgor Dyngarol y disgyblion wedi gosod her i ni gerdded cyfanswm o 2021 o filltiroedd yn ystod yr wythnos yn ystod neu o bosib adref gyda'r teulu. Mi fydd Al Huws yn sgwrsio gydag aelodau o'r Pwyllgor Dyngarol ar BBC Radio Cymru ar fore dydd Llun, Tachwedd 15^{fed}. <https://fb.watch/990vwRe-po/>



Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol – Bydd disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol wythnos nesaf fel sbardun i bennod o ddysgu ar gyfer y cwricwlwm newydd. Bydd dosbarth 6E yn mynychu ar fore dydd Mawrth yr 16^{eg}, a dosbarth 6J ar fore dydd Mercher yr 17^{eg}. Byddant yn cerdded i'r Llyfrgell ac yn ôl. Bydd angen cot law ac esgidiau addas arnynt. Byddant yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer cinio.

Clwb yr Urdd – ar gyfer disgyblion sy'n aelodau o'r Urdd yn unig - cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i Glwb yr Urdd nos Fercher gyda nifer fawr o ddisgyblion Bl 2, 4, a 6 yn aros tan 4.30 - mi fydd y clwb yn parhau ar gyfer Bl 1, 3, a 5 yr wythnos nesaf – **os nad ydych wedi cofrestru yna dilynwch y linc yma urdd.cymru/ymuno** i dalu aelodaeth - £10 ar gyfer unigolion, £25 i deuluoedd o 3 neu fwy) Yn sgîl cyfyngiadau Covid-19 mi fydd y disgyblion yn parhau i fod yn eu swigod blwyddyn ar gyfer y gweithgareddau. Casglwch y disgyblion ger y brif fynedfa am 4.30yp

Amserlen:

Dydd Mercher, Tachwedd 10fed – Blynnyddoedd 2, 4 a 6

Dydd Mercher, Tachwedd 17eg – Blynnyddoedd 1, 3 a 5

Dydd Mercher, Tachwedd 24ain – Blynnyddoedd 2, 4 a 6

Dydd Mercher, Rhagfyr 1af – Blynnyddoedd 1, 3 a 5

Mi fydd Clwb yr Urdd yn parhau yn nhymor y gwanwyn a'r haf.

Yn sgîl cyhoeddiad diweddaraf Mark Drakeford am y newidiadau i hunan ynysu, hoffwn eich atgoffa o'r wybodaeth ddosbarthwyd yn llythyr y Pennaeth 5/11/2021 gweler isod yr hyn sy'n ddisgwyliedig bellach:

Prif negeseuon:

Os oes gan rywun yn eich cartref symptomau Corona feirws neu wedi profi'n bositif:

- **Os ydych wedi'ch brechu'n llawn neu o dan 18 oed (ac eithrio plant 0 – 4 oed)**

Rhaid i chi hunan ynysu a chymryd prawf PCR. Os yw eich prawf yn negyddol gallwch roi'r gorau i ynysu a dychwelyd i'r ysgol. Yn yr achosion hyn, cynghorir disgyblion ysgol uwchradd I gymryd profion LFD dyddiol am 7 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

Os bydd unrhyw ganlyniad LFD yn dychwelyd canlyniad cadarnhaol, dylid uwchlwytho'r canlyniad i'r porth Cenedlaethol a dylid cynnal prawf PCR.

Pan fo canlyniad yn gadarnhaol, rhaid i'r unigolyn ynysu am 10 diwrnod.

- **Os nad ydych wedi'ch brechu'n llawn a 18 oed neu'n hŷn**

Rhaid i chi hunanynysu am 10 diwrnod. Dylech gael prawf PCR ar ddiwrnod 2 a diwrnod 8 hyd yn oed os yw'r rhain yn negyddol rhaid i chi barhau i ynysu am y 10 diwrnod llawn.

- **Plant o dan 5 oed**

Does dim rhaid i blant o dan 5 oed ynysu na chymryd prawf os ydynt wedi bod yn gyswllt ag achos cadarnhaol – cartref neu'r thu hwnt. Fodd bynnag, ni ddylent fynychu meithrinfa na lleoliad gofal plant os ydynt yn symptomatig neu'n sâl.

Cofiwch;

Os oes gennych chi unrhyw rai o **symptomau Corona feirws** (tymheredd uchel, peswch cyson newydd, colli blas neu arogl – neu newid yn y synhwyrâu hynny), dylech hunanynysu gartref a **chael prawf**. Ni ddylech fynd i feddygfa, fferyllfa nac ysbyty. Mae hunanynysu yn berthnasol i oedolion a phlant o bob oed.

Mae hunanynysu yn golygu nad ydych chi'n gadael y tŷ. Dylech hunanynysu ar unwaith os oes gennych chi symptomau a pharhau i hunanynysu hyd nes y cewch ganlyniad prawf PCR COVID-19.

Os ydych wedi cael canlyniad positif am COVID-19, neu os yw gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru wedi gofyn i chi hunanynysu, rhaid i chi aros gartref. Rydych chi'n torri'r gyfraith a gallech chi gael dirwy os nad ydych chi'n aros gartref ac yn hunanynysu.

Hyn oll wrth gwrs er mwyn edrych ar ôl ein gilydd a chadw ein cymunedau mor ddiogel â phosibl.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith

R C Williams

Pennaeth

12/11/2021

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Children in Need Day - Pupils are welcome to wear fancy dress to school on Friday, November 19th. A donation of £1.00 per pupil would be appreciated to support the campaign.

Ymgyrch Al Huws , BBC Radio Cymru – Amdani Gyda’n Gilydd 2021
- the school will support the challenge by walking a mile around the field on our new Wellbeing Trail - Five laps of the well-being trail is equivalent to 1 mile . The pupils' Humanitarian Committee has challenged us to walk a total of 2021 miles during the week in school or possibly at home with the family. Al Huws will be speaking to members of the Humanitarian Committee on BBC Radio Cymru on Monday, November 15th. <https://fb.watch/990vwRe-po/>



A visit to the National Library of Wales – Year 6 will be visiting the National Library next week as stimulus for their next chapter of learning for the new curriculum. Class 6E will be visiting on the morning of Tuesday 16th, and class 6J on the morning of Wednesday 17th. They will be walking to the Library and back – a raincoat and appropriate footwear will be required. They will return to school by lunchtime.

Clwb yr Urdd - for Urdd members only - there was a very positive response to the Urdd Club on Wednesday night with a large number of Yr 2, 4, and 6 pupils staying until 4.30 - the club will continue for Years 1, 3, and 5 next week - if you are not registered then follow this link urdd.cymru/ymuno . In light of Covid-19 restrictions pupils will remain in their year bubbles for the activities. Collect pupils at the main entrance at 4.30pm
Timetable:

Wednesday, November 10th - Years 2, 4 and 6

Wednesday, November 17th - Years 1, 3 and 5

Wednesday, November 24th - Years 2, 4 and 6

Wednesday, December 1st - Years 1, 3 and 5

The Urdd Club will continue in the spring and summer terms.

In light of Mark Drakeford's latest announcement of the changes to self-isolation, I would like to remind you of the information circulated in the Headteacher's letter on 5/11/2021, see below what is now expected:

Key messages:

If someone in your household has symptoms of coronavirus or has tested positive:

- **If you are fully vaccinated or under the age of 18 (excluding children aged 0 – 4)**

You must self-isolate and take a PCR test. If your test result is negative you can stop isolating and return to school. In these instances, secondary school pupils are still advised to take daily LFD tests for 7 days following their return to school.

If any LFD result returns a positive result, the result should be uploaded onto the National portal and a PCR test should be undertaken.

Where a result is positive, the individual will need to isolate for 10 days.

- ***If you are not fully vaccinated and aged 18 or over***

You must self-isolate for 10 days. You should get a PCR test on day 2 and day 8 even if these are negative you must continue to isolate for the full 10 days.

- ***For a child under 5***

A child under 5 years of age does not have to isolate or take a Covid test if they have been a contact of a positive case – household or other. However, they should not attend nursery /childcare setting if they are symptomatic or unwell.

Please remember:

*If you have any **coronavirus symptoms** (a high temperature, a new continuous cough or a loss or change of taste or smell), you should self-isolate at home and **get a test**. You should not go to a GP surgery, pharmacy or hospital. Self-isolation applies to adults and children of all ages.*

Self-isolation means that you do not leave the house. You should self-isolate straight away if you have symptoms and until you receive the results of a COVID-19 PCR test.

If you have tested positive for COVID-19, or have been told to self-isolate by the NHS Wales Test, Trace, Protect (TTP) service, you must stay at home. You are breaking the law and could be fined if you do not stay at home and self-isolate.

All this of course, to look after each other and keep our communities as safe as possible.

If you have any concerns about your child's education then please contact me immediately.

***R C Williams
Headteacher
12/11/2021***